
Community Services Department
SOCIAL SERVICES

# Bryneithin Residential Home for Older People



St Andrews Road
St Andrews Major
Dinas Powys
Vale of Glamorgan
CF64 4AT



# Introduction to Bryneithin

Bryneithin is a mixed Residential Home for older people suffering with varying degrees of dementia. The age range of our residents is 65 years and over.

The Home is set in beautiful, well maintained gardens, overlooking the Common in Dinas Powys. There is also a large enclosed patio area for the enjoyment of residents.

Bryneithin can accommodate 19 long stay residents as well as 3 respite beds and all rooms are fitted with a washbasin and emergency call system. Residents are encouraged on admission to bring with them ornaments, pictures, and any other items to make them feel at home.

There are two lounges and all meals are served in the main dining room unless otherwise requested. Menu choices are on display daily and special diets can be catered for.
A lift is available for access to the upper floor.

# Care Standards

The Home is registered with the Care Standards Inspectorate for Wales (CSIW) and is inspected at least twice a year. The inspections are to ensure that the home meets the standards introduced for residential care accommodation across Wales (see page 6 of leaflet).

We are not registered as a Nursing Home.

## Quality of Life

The Home adheres to a Statement of Purpose which details the quality of life it aims to provide for its residents. The statement includes issues under the following headings

- Service users rights
- Privacy
- Dignity
- Independence
- Security
- Civil Rights
- Choice
- Fulfilment
- Quality care
- Choice of Home

A copy of the Statement of Purpose can be obtained directly from the Home or from the Contact and Information Centre.

## Health Care

The Home is attached to the local medical practice and there are regular visits from an optician, chiropodist and dentist. Residents are able to retain the services of their previous medical practitioners where this is feasible.

## Staffing

Staff are in attendance 24 hours a day and includes three waking night staff.

A Key Worker system is in operation that aims to encourage close one to one relationships between care staff and residents.

A cook provides a nutritional and balanced diet while housekeeping staff seek to maintain a clean environment for residents, with an in-house laundry run by a laundress 7 days per week.

A gardener/handyman is employed on a fulltime basis.

## Activities Available

Activities are organised within and away from the home and include shopping trips; coffee mornings; cheese and wine evenings; religious meetings; concerts; outings and an annual bazzar.

People living in the local community are encouraged to attend some of the organised events, as are friends and family members of residents.

## How to access the service

Every prospective service user will be expertly assessed before a decision on admission is made. We have to be confident that we can meet the assessed needs.

An assessment can be arranged through the Contact and Information Centre.


## Paying for Service

If care is arranged for you through Community Services there may be a charge for the service, depending on your financial circumstances. Some people receive a free service, whilst others pay an assessed charge. You will be advised of the cost before deciding whether you wish to receive the service.

## Choosing a Residential Home

For more information on choosing a Residential or Nursing Home, ask for a leaflet ‘A guide to Care in a Residential or Nursing Home’ by telephoning: 01446 704814.

# How to find Bryneithin



**For Advice and Information on Social Care Services for adults, their carers and families in the Vale of Glamorgan, contact us at:**

Contact and Information Centre

Telephone 01446 731100
Textphone 07966 026541
Minicom 01446 742245

Contact and Information Centre
P.O.Box 83
Barry
CF63 8YR

## E mail:

CIC@valeofglamorgan.gov.uk

## Opening Hours:

Monday - Thursday, 8:30am to 4:30pm
Friday, 8:30am to 4:00pm

**CSIW:** 4 - 5 Charnwood Court, Heol Billingsley, Parc Nant Garw, Cardiff CF15 7QZ. tel:01443 848527

This information may also be provided, by request, in other languages, in larger print, tape or in simplified version. Please contact the Policy and Information Team on tel: 01446 704814 to make arrangements.

Ref: CS/19/AUG06

Adran Gwasanaethau Cymunedol
GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

# Cartref Preswyl Bryneithin ar gyfer yr Henoed



Heol Saint Andras
Saint Andras
Dinas Powys
Bro Morgannwg
CF64 4AT



## Gair am Gartref Bryneithin

Cartref Preswyl ar gyfer dynion a menywod mewn oed sy'n dioddef o ddryswch i ryw raddau neu'i gilydd yw hwn. Mae'r holl breswylwyr yn 65 oed neu'n hŷn na hynny.

Mae'r cartref yn sefyll mewn gerddi hardd a threfnus sy'n edrych dros Gomin Dinas Powys ac y mae patio mawr caeëdig at ddefnydd y preswylwyr.

Mae lle yn y cartref ar gyfer 19 o breswylwyr tymor hir a 3 gwely seibiant ac y mae basn ymolchi ym mhob ystafell ynghyd â system arbennig er mwyn i breswylwyr allu galw am gymorth mewn argyfwng. Byddwn yn annog preswylwyr newydd i ddod ag addurniadau, lluniau ac unrhyw eitemau eraill a fydd o gymorth iddynt deimlo'n gartrefol.

Mae dwy lolfa ym Mryneithin a bydd preswylwyr yn cael eu holl brydau bwyd yn y brif ystafell fwyta onibai i ni dderbyn cais am wneud trefniadau gwahanol. Byddwn yn arddangos y fwydlen bob dydd ac yn darparu ar gyfer pob math o ddeiet.
Mae lifft ar gael i'r llawr uchaf.

## Safonau Gofal

Mae'r cartref wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Bydd yn cael ei arolygu ddwywaith y flwyddyn o leiaf er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau y mae'n rhaid i bob cartref gofal preswyl yng Nghymru eu cyrraedd erbyn hyn. (gwelwch dudalen 6).

Nid yw Bryneithin wedi'i gofrestru fel Cartref Nyrsio.

## Ansawdd Bywyd

Bydd y cartref yn gweithredu'n ôl Datganiad o Fwriad sy'n egluro'r math o ansawdd bywyd y byddwn yn ceisio ei roi i breswylwyr. Mae'r datganiad yn ymdrin â'r mater o dan nifer o benawdau sef:

- Hawliau defnyddwyr y gwasanaeth
- Preifatrwydd
- Urddas
- Annibyniaeth
- Diogelwch
- Hawliau Sifil
- Dewis
- Boddhad
- Gofal da
- Dewis cartref

Gofynnwch yng Nghanolfan Cysylltu a Holi'r Cyngor am gopi o'r Datganiad o Fwriad.

## Gofal Iechyd

Mae'r cartref yn rhan o'r feddygfa leol a bydd optegydd, triniwr traed a deintydd yn ymweld â'r preswylwyr yn rheolaidd. Mae pob hawl i breswylwyr gadw'r meddygon a fu'n eu trin cyn iddynt ddod i'r cartref pan fo hynny'n ymarferol.

## Staff

Bydd staff ar gael bob awr o'r dydd a'r nos a bydd y tri aelod o'r staff nos ar eu traed drwy gydol y sifft.

Byddwn yn gweithredu system Gweithwyr Allweddol er mwyn i'n gweithwyr gofal gael cyfle i feithrin perthynas agos â phreswylwyr unigol.

Mae gennym gogydd sy'n darparu prydau bwyd cytbwys a maethlon a staff arbennig i ofalu am lendid y safle.  Bydd ein golchdy ar agor bob diwrnod o'r wythnos o dan ofal golchyddes y cartref.

Bydd y cartref hefyd yn cyflogi garddwr/crefftwr amser llawn.

## Gweithgareddau

Byddwn yn trefnu gweithgareddau y tu fewn a'r tu allan i'r cartref gan gynnwys teithiau siopa; boreau coffi; nosweithiau caws a gwin; cyfarfodydd crefyddol; cyngherddau; teithiau a ffair sborion flynyddol.

Bydd croeso i ffrindiau a pherthnasau'r preswylwyr a thrigolion y gymuned leol ddod i'r rhai o'r digwyddiadau hyn.

## Defnyddio'r gwasanaeth

Bydd darpar breswylwyr bob amser yn cael eu hasesu gan arbenigwr. Cyn eu derbyn, mae'n rhaid i ni fod yn hollol ffyddiog y gallwn fodloni'r anghenion y mae'r asesiad wedi'u datgelu.

Cewch drefnu asesiad drwy gysylltu â Chanolfan Cysylltu a Holi'r Cyngor.


## Talu am y gwasanaeth

Os cafodd eich gofal ei drefnu drwy'r Gwasanaethau Cymunedol, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu amdano, er y bydd hynny'n dibynnu ar eich sefyllfa ariannol. Bydd rhai pobl yn cael gofal am ddim a rhai eraill yn talu swm sydd wedi'i seilio ar asesiad. Cewch wybod faint yn union y bydd yn rhaid ei dalu am y gwasanaeth cyn dod i unrhyw benderfyniad.

## Dewis Cartref Preswyl

Am fwy o wybodaeth am sut i ddewis Cartref Preswyl neu Nyrsio ffoniwch 01446 704814 a gofynnwch am y daflen 'Arweiniad i ofal mewn Cartrefi Preswyl neu Nyrsio'.

# Dod o hyd i Gartref Bryneithin



**Am gyngor a gwybodaeth am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol ar gyfer oedolion, eu gofalwyr a'u teuluoedd yn y Fro cysylltwch â ni yng Nghanolfan Cysylltu a Holi'r Cyngor. Dyma'r manylion:**

Canolfan Cysylltu a Holi Cyngor Bro Morgannwg

| | |
|---|---|
| Ffôn | 01446 731100 |
| Ffôn testun | 07966 026541 |
| Minicom | 01446 742245 |

Canolfan Cysylltu a Holi Bro Morgannwg
Blwch S.B. 83
Y Barri
CF63 8YR

## E-bost:

CIC@valeofglamorgan.gov.uk

## Oriau agor:

| | |
|---|---|
| Llun - Iau | 8:30am - 4:30pm |
| Gwener | 8:30am - 4:00pm |

## Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru

4 - 5 Llys Charnwood, Heol Billingsley, Parc Nant Garw
Caerdydd, CF15 7QZ. 01443 848527

Cewch y wybodaeth hon ar dâp sain, mewn print bras, wedi'i symleiddio ac mewn ieithoedd eraill drwy holi. Ffoniwch ein Tîm Polisi a Gwybodaeth ar 01446 704814 er mwyn gwneud trefniadau.

Cyf: CS/19/AUG06